

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Adroddiad Blynyddol

2021-2022



A prosperous
Wales



A resilient
Wales



A healthier
Wales



A more
equal Wales



A globally
responsible
Wales



A Wales of vibrant
culture and
thriving Welsh
language



A Wales of cohesive
communities

Cynnwys

Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
Ein Datganiad a'n Hamcanion Llesiant	6
Ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	5
Cyflawni ein Hamcanion Llesiant yn ystod 2021/2022	9
Gweithio mewn partneriaeth	Error! Bookmark not defined.
Beth rydym yn bwriadu ei wneud nesaf.....	23

DRAFT

Cyflwyniad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn i ddangos ein cynnydd yn ystod 2021/22 tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cadarnhau dyletswyddau unigol ac ar y cyd ar gyfer 44 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Byrddau Iechyd. Mae ein Bwrdd Iechyd yn aelod o dri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), un ym mhob un o'n hardaloedd awdurdod lleol, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Drwy ein haelodaeth, rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid lleol a rhanbarthol a'n nod, drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer ein poblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith nod llesiant cenedlaethol a phum ffordd o weithio y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio i'w cyflawni. Dyma'r saith nod llesiant:

Cymru lewyrchus – Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Cymru gydnerth – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru iachach – Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n fwy cyfartal – Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru o gymunedau cydlynus – Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae **Saith Nod Llesiant Cymru** a'r **Pum Ffordd o Weithio** a ddarperir gan y Ddeddf wedi'u cynllunio i gefnogi gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Gelwir hyn yn 'egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gelwir y rhain yn **Bum Ffordd o Weithio** ac fe'u dangosir isod.



Tymor Hir

Atal

Integreiddio

Cydweithredu

Cynnwys

Bydd gweithredu gofynion y Ddeddf yn cefnogi ymrwymïadau deddfwriaethol eraill, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Deddf Cydraddoldeb 2010, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn ganolog i'n dull gweithredu o ran cynllunio tymor hwy o fewn y Bwrdd Iechyd a'r daith dymor hir rydym arni ac a fynegwyd yn ein strategaeth, "Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Iach". Ym mis Medi 2020, cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd amcanion strategol sy'n adlewyrchu ein gweledigaeth, sef "Gyda'n gilydd rydym yn adeiladu lleoedd caredig ac iach i fyw a gweithio ynddynt yng Ngorllewin Cymru. Mae'r amcanion yn ymwneud â'n pobl (staff, defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau) a'n gwasanaethau:



Yn sail i'n tri nod strategol – dechrau a datblygu'n iach, byw a gweithio'n iach a thyfu'n hŷn yn iach – mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n gosod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth galon ein taith drawsnewid. Wrth ganolbwyntio ar y poblogaethau presennol, mae ein gweithredoedd yn gosod y sylfeini ar gyfer gwell canlyniadau iechyd a llesiant i genedlaethau'r dyfodol.



Y Tri Nod Strategol o 'Canolbarth a Gorllewin Iachach'

Mae anghydraddoldebau iechyd sy'n cynyddu a phwysau cynyddol ar wasanaethau gofal iechyd yn arwain at newid o ran ffocws i'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn cydnabod y rôl y mae'r GIG yn ei chwarae o ran atal a'i ddylanwad ehangach mewn cymunedau fel sefydliad angori. Mae sefydliadau angori yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus, fel y Bwrdd Iechyd, sydd â rôl sylweddol yn yr ardal ddaearyddol ac sydd â chenhadaeth i wella lles y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu. Mae maint, graddfa a chyrhaeddiad y GIG yn golygu y gall y ffordd rydym yn dewis gweithredu a defnyddio ein hadnoddau gael dylanwad sylweddol ar iechyd a llesiant poblogaethau lleol a chyfrannu'n weithredol at ardaloedd lleol y tu hwnt i ddarparu gofal iechyd. Er enghraifft, gall y Bwrdd Iechyd wneud gwahaniaeth i bobl lleol drwy gymryd camau corfforaethol, fel y canlynol:


- Prynu mwy yn lleol er budd cymdeithasol
- Defnyddio adeiladau a lleoedd i gefnogi cymunedau
- Cydweithio'n agosach â phartneriaid lleol
- Lleihau ei effaith ar yr amgylchedd
- Ehangu mynediad at gyfleoedd gwaith o safon


Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd mesur ac adrodd ar fentrau a fydd yn darparu gwerth cymdeithasol a chyhoeddus ac mae wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) i greu fframwaith gwerthoedd cyhoeddus er mwyn casglu ac adrodd ar ddata ar werth economaidd cymdeithasol a lleol. Mae'r holl waith hwn yn cyfrannu at ein cynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn dystiolaeth o gymhwyso'r pum ffordd o weithio yn ymarferol a'r newidiadau rydym yn eu gwneud i'r saith maes newid corfforaethol. Cewch ragor o wybodaeth yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Ein Datganiad a'n Hamcanion Llesiant

Nid yw ein hamcanion llesiant wedi'u cyfyngu i un canlyniad cenedlaethol ac maent yn gyson â mwy nag un o'r nodau cenedlaethol. Rydym yn cydnabod yr angen i ddangos cysondeb amlwg rhwng ein hamcanion strategol a'r amcanion cynllunio gweithredol, fel y dangosir yn y diagram isod.

Er bod Covid wedi datgelu a dwysáu anghydraddoldebau parhaus o ran iechyd, yn gefndir i hyn hefyd y mae'r argyfwng hinsawdd a natur. I wella iechyd a llesiant y cyhoedd bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â thlodi, ffactorau amgylcheddol, tai gwael ac ynysigrwydd cymdeithasol. Sefydlwyd ein hamcanion llesiant yn nodau hirdymor ac yn uchelgeisiau i ymwreiddio gweithrediad y ddeddf, ac mae'r rhain yn parhau'n berthnasol am y flwyddyn sydd i ddod. Isod, dangosir enghreifftiau o sut y maent yn cysylltu ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd a'n hamcanion cynllunio gweithredol:






Cyflawni ein Hamcanion Llesiant yn ystod 2021/2022

Ym mhennod nesaf ein hadroddiad, rydym yn cyflwyno 'Astudiaethau Achos' i ddangos rhai o'r gweithgareddau a'r prosiectau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn eu cyflawni i gefnogi ein hamcanion llesiant.

Mae ein hastudiaethau achos yn disgrifio rhai o'n gweithgareddau a'r canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni ar gyfer ein poblogaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ymdrechu i roi enghreifftiau o'r effaith a brofwyd gan unigolion. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau eu darllen.

Rhoi Sylw i Ddatblygu ein Gweithlu yn y Dyfodol

Fel pob corff cyhoeddus, rydym yn wynebu her yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y gweithlu sydd ar gael i ni. Rydym yn buddsoddi mewn adeiladu cyfoeth lleol a chyfrannu at ein hamcan llesiant ein hunain i gynnig ystod amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu llawn botensial. Mae tîm y gweithlu wedi datblygu Fframwaith Adfywio a ddangosir isod. Mae Adfywio'r Gweithlu yn brototeip i ddangos a mesur ein dull o gynllunio'r gweithlu a'n hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Prosiect arall yw ein Hacademi Prentisiaethau. Mae **Academi Prentisiaethau Hywel Dda** yn cynnig rhaglen ddysgu seiliedig ar waith strwythuredig sy'n helpu prentis i ddysgu yn ogystal ag ennill arian wrth iddo gael ystod o gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'r llwybrau prentisiaeth yn cynnwys meysydd fel gofal iechyd (sy'n arwain at nyrsio oedolion), profiad y claf, datblygu'r gweithlu, profiad digidol, llywodraethu ac ystadau (sy'n datblygu peirianwyr trydanol a mecanyddol).

Lansiwyd yr Academi yn 2019 ac mae wedi'i chynllunio i gynnig cyfleoedd i'n poblogaeth leol sydd am weithio ym maes gofal iechyd ond efallai nad oes ganddynt y cymwysterau priodol neu nad ydynt mewn sefyllfa i fynd i addysg amser llawn gyda choleg neu brifysgol.

- Mae **32 prentis** o garfan 2019 wedi **symud ymlaen i'r Brifysgol** a byddant yn dechrau eu rhaglen Lefel 4 ym mis Mawrth 2022.
- Dechreuodd 71 prentis yng ngharfan 2021 ac mae **63 prentis ar y rhaglen o hyd.**

Roedd Adama Mboob, 31 oed, sy'n un o brentisiaid Hywel Dda ac yn fam sengl, bob amser am fod yn nyrs, ond nid oedd yn gallu gwneud hynny oherwydd amgylchiadau amrywiol. Pan ddaeth i wybod am raglen yr Academi Prentisiaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, roedd yn llawn cyffro, ond roedd ganddi amheuan oherwydd ei hoedran:



"Doeddwn i ddim yn sylweddoli ar y dechrau y gallwn ei wneud, oherwydd fy oedran, ond mae'r brentisiaeth yn wir ar gyfer pawb, dim ots beth yw eich oedran, rhyw neu hil ... Byddwn yn bendant yn annog unrhyw un ifancach neu henach, sy'n ystyried y brentisiaeth, i wneud cais. Os nad ydych am fynd i'r brifysgol, neu os na allwch fforddio hynny, neu os oes gennych deulu i ofalu amdano, mae'r brentisiaeth yn ddewis perffaith."

Ffordd arall rydym yn datblygu gweithlu medrus a hyblyg yw drwy **ddatblygu rolau technegydd fferyllfa**. Mae technegwyr fferyllfa yn weithwyr fferyllfa proffesiynol sydd eisoes yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu cleifion i gael y budd mwyaf o'u meddyginiaethau. Yn draddodiadol, rhoddir meddyginiaethau gan staff nyrsio, fodd bynnag, mae prosiect yn Ysbyty'r Tywysog Philip wedi'i ddatblygu lle mae technegwyr fferyllfa wedi'u hyfforddi i roi meddyginiaethau. Mae'r technegydd wedi dod yn aelod gwerthfawr o dîm y ward ac yn ased i weithlu medrus.

Sefydlodd tîm y gweithlu broses ganolog i gefnogi rheolwyr a gweithwyr y cynigiwyd contractau 3 mis a 6 mis iddynt yn ystod y pandemig i archwilio a fyddent yn hoffi parhau â'u contract pe bai'r galw am wasanaethau yn dangos bod angen y swyddi yn y tymor hwy. Yn ystod y pandemig, roeddem wedi cyflogi **2,207** aelod newydd o staff mewn amrywiaeth o rolau i gefnogi'r ymateb i'r pandemig. Er bod rhai aelodau o staff wedi gadael pan ddaeth y cynlluniau ffyrlo i ben, neu wedi parhau i gael eu cyflogi fel gweithwyr cronfa, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i rolau parhaol i staff. Hyd yma, mae **488** o rolau wedi **newid o fod yn gontractau cyfnod penodol yn ystod Covid-19 i fod yn gyfleoedd gwaith parhaol**.

"Roeddwn i wrth fy modd â'r cyfle a gefais drwy hyn. Rydw i wedi ei fwynhau gymaint. Byddaf yn gwneud cais am gwrs nyrs neu barafeddyg."

Aelod o staff

"Mae wedi bod yn gyfle anhygoel i allu ymuno â'r GIG a chefnogi'r argyfwng Covid-19. Mae'r profiad hwn wedi newid fy ngyrfa ac rwy'n chwilio am yrfa hirdymor yn y GIG."

Aelod o staff

Cyfraniad at ein hamcanion llesiant

Datblygu gweithlu medrus a hyblyg i ddiwallu anghenion newidiol y GIG modern.

Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwaith sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu potensial.

Cyfraniad at ein nodau llesiant cenedlaethol



Cymru Lewyrchus

- Creu llwybrau i bobl i waith




Cymru sy'n fwy cyfartal

- Galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir



Cymru Gydnerth

- Cefnogi datblygiad a chydnerthedd cymdeithasol ac economaidd pobl ifanc



Rhoi Sylw i Lesiant Amgylcheddol

Grŵp Trafnidiaeth a Theithio Cynaliadwy

Fel rhan o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i leihau ei ôl troed carbon a chyfrannu at darged GIG Cymru, sef bod yn 'sero net' o ran allyriadau erbyn 2030, crëwyd Grŵp Trafnidiaeth a Theithio Cynaliadwy. Mae'r grŵp yn cynnwys staff o wahanol adrannau yn y Bwrdd Iechyd, fel Cyllid, Trafnidiaeth, Ystadau, y Gweithlu a Chyfathrebu, yn ogystal â Knowles Fleet sy'n ddarparwr cerbydau allanol i'r Bwrdd Iechyd. Diben y grŵp hwn yw datblygu prosiectau a mentrau i'n helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac ymhlith y prif weithgareddau oedd hybu ymwybyddiaeth ac addysgu staff ynghylch buddion cerbydau trydan.

O ganlyniad i'r ymgyrch ymgysylltu hon, cafwyd **cynnydd o 227% yn nifer y cerbydau trydan a gafwyd neu a archebwyd gan y Bwrdd Iechyd mewn cyfnod o chwe mis**. Mae hyn yn dod â chyfanswm y cerbydau trydan ar draws fflyd gyfan y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cerbydau ar gyfer defnydd busnes yn unig, a chynlluniau lesio car drwy ildio cyflog a didynnu cyflog, i 128: mae 66 o gerbydau cwbl drydanol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ac mae 62 o gerbydau cwbl drydanol wedi'u harchebu. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cerbydau trydan hybrid. Mae cyfanswm o 58 o'r rhain yn cael eu defnyddio neu wedi'u harchebu.



Datgarboneiddio adeiladau

Mae datgarboneiddio ein hadeiladau bob amser wedi bod yn flaenoriaeth uchel i'r Bwrdd Iechyd a gellir dangos hyn drwy nifer o brosiectau effeithlonrwydd ynni, carbon isel y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cyflawni dros y blynyddoedd. Yn 2021/22 gosodwyd paneli ffotofoltäig ar y to mewn 7 safle ar draws Hywel Dda. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod y cynlluniau hyn yn **arbed oddeutu 419,165 kWh o drydan a £40,000 y flwyddyn**. Disgwylir i'r arbedion carbon blynyddol yn sgil y prosiectau hyn fod oddeutu 106 tCO₂e.

Mewn ymateb i Gynllun Cyflenwi Strategol Llywodraeth Cymru ar Ddatgarboneiddio ar gyfer y GIG yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn symud ymlaen â chyfres o fesurau paneli solar ffotofoltäig ac effeithlonrwydd ynni a ddatblygwyd gyda chymorth gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a chyllid Llywodraeth Cymru. Ym mis Mawrth 2021, sicrhodd y Bwrdd Iechyd gyllid ar gyfer y cynlluniau canlynol:

- Fferm solar 0.5MW
- Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi
- Paneli solar ffotofoltäig ar y to yn Ysbyty De Penfro
- Porth ceir solar
- Paneli solar ffotofoltäig a gosod bylbiau LED yn Ysbyty Bronglais
- Cynlluniau paneli solar ffotofoltäig ar y to yn Ysbyty Llwynhelyg
- Mannau gwefru ceir/cerbydau trydan



Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd Sir Benfro

Yn Sir Benfro, mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dod ynghyd â busnesau a mudiadau cymunedol lleol, gydag uchelgais i ddatblygu strategaeth bum mlynedd ar gyfer ymaddasu i newid hinsawdd. Mae'r gwaith hwn yn ymwneud ag ymdopi â newidiadau yn y dyfodol o ran yr hinsawdd yn Sir Benfro ac mae'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymaddasu i Newid Hinsawdd, sy'n helpu i leihau'r risgiau yn sgil newidiadau sy'n deillio o allyriadau yn y gorffennol, gan gynnwys tywydd difrifol anrhagweladwy; cynnydd yn lefel y môr; newidiadau mewn systemau naturiol rydym yn dibynnu arnynt.
- Risgiau yn sgil yr Hinsawdd: nifer o risgiau sy'n debygol o godi yn sgil newidiadau i'n hinsawdd a all effeithio ar yr economi leol; yr amgylchedd naturiol; seilwaith; cymunedau; llesiant pobl nawr ac yn y dyfodol.
- Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd: sicrhau bod y sir yn gallu delio â'r risgiau yn sgil y newid yn yr hinsawdd a bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

Cyfraniad at ein hamcanion llesiant

Cynllunio a darparu gwasanaethau i gynyddu ein cyfraniad at garbon isel.

Hybu'r amgylchedd naturiol a'r gallu i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

Cyfraniad at ein nodau llesiant cenedlaethol



**Cymru
Lewyrchus**

- Lleihau allyriadau carbon.



**Cymru
Gydnerth**

- Lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd ar natur.

Rhoi Sylw i Genedlaethau'r Dyfodol

Mae manteisio i'r eithaf ar y defnydd o dechnoleg ddigidol wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y pandemig er mwyn estyn allan i gynnig cymorth i blant a phobl ifanc. Ddechrau 2021 **lansiodd y tîm Iechyd Ieuencid / Iechyd Da ChatHealth**, sef gwasanaeth negeseuon testun i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Gall nyrsys gynnig gwybodaeth a chymorth drwy negeseuon testun a chyfeirio pobl ifanc at wasanaeth perthnasol. Gall cyswllt drwy neges destun hefyd arwain at gyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r person ifanc gyda'i ganiatâd. Mae'r gwasanaeth yn galluogi person ifanc efallai nad yw erioed wedi siarad yn uniongyrchol â rhywun am sut y mae'n teimlo i gael cymorth gan y gwasanaeth. Mae'r tîm hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd posibl ac anghenion nas diwallwyd. Derbyniodd y gwasanaeth **471** o negeseuon yn ystod 2021/22, rhwng Ebrill 2021 a Chwefror 2022.

"Mae ChatHealth yn wasanaeth gwych a chefais y cymorth roedd ei angen arnaf. Rydw i wedi cael cymaint o gymorth, mae pobl yn gwrando arnaf ac rwy'n teimlo fy mod i'n gallu dweud unrhyw beth heb gael fy marnu mewn unrhyw ffordd. Rwy'n rhoi'r rhif i fy ffrindiau hefyd." -
Defnyddiwr gwasanaeth

Lansiodd y Tîm Diabetes Pediatrig brosiect seicoleg i blant a phobl ifanc â diabetes.

Datblygodd y prosiect, a gyllidwyd gan Grŵp Gweithredu ar gyfer Diabetes Cymru Gyfan, offeryn sgrinio i fesur llesiant emosiynol a gofid ymhlith plant a phobl ifanc â diabetes.

Cafodd 134 o blant a phobl ifanc a 132 o rieni a ddaeth i glinigau diabetes pediatrig y tîm amlddisgyblaeth rhwng mis Mai a mis Medi 2021 eu gwahodd i gwblhau'r offeryn sgrinio newydd. Aseswyd gofid seicolegol drwy ddefnyddio cynllun sgorio coch, oren, gwyrdd. Roedd y broses sgrinio newydd yn nodi gofid y gallai sgorau coch, oren, gwyrdd a roddir gan glinigydd fod wedi'i golli, a daeth y prosiect i'r casgliad bod cyfuno offer o bosibl yn gwella'r cyfraddau nodi, gan hwyluso ymyrraeth seicolegol briodol. Mae rhagor o gyllid bellach wedi'i ddyrannu a bydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r holiadur ymhellach, gan gynnwys ei gyfieithu i'r Gymraeg.

Cyfraniad at ein hamcanion Llesiant

Cynllunio a darparu gwasanaethau i alluogi pobl i fod yn rhan o atebion cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd, gan annog cyfranogiad cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwella iechyd y boblogaeth drwy atal ac ymyrraeth gynnar, gan gefnogi pobl i fyw bywydau hapus ac iach.

Cyfraniad at ein nodau llesiant cenedlaethol

Cymru Iachach

- Ffyrdd arloesol o wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl.
- Gwella llesiant meddyliol pobl ifanc.



Rhianta Cynaliadwy

Creodd un o'n bydwagedd cymunedol yn Sir Benfro boster yn cynnwys 10 Gweithred Newid Hinsawdd gyda'r nod o annog rhieni newydd i fod yn fwy cynaliadwy a dangos sut y gall gweithredoedd bach wneud gwahaniaeth mawr. Mae'r poster yn cynnwys cyngor gwyb, gan gynnwys sut y gall dechrau arferion newydd helpu pobl a'r amgylchedd.

Er mwyn annog cynaliadwyedd ymhellach, dechreuwyd prosiect plannu coed yn Sir Benfro. Ar 19 Mawrth 2020, plannwyd 1,300 o goed i nodi dechrau coetir newydd yn Sir Benfro, lle mae pob coeden sy'n cael ei phlannu yn cynrychioli baban newydd a anwyd i deulu yn Sir Benfro. Ers hynny, mae'r prosiect wedi parhau i blannu coeden ar gyfer pob baban a anwyd i deulu yn Sir Benfro. Mae'r coetir hwn yn creu cynefin newydd i fywyd gwylt a lle newydd i bobl Sir Benfro. Bydd y coed hyn hefyd yn helpu i dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer, lleihau erydiad pridd a lleihau risg llifogydd. Mae'r prosiect yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Penfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Tir Coed, Coed Cadw a Pembrokeshire Lamb. Yn ystod 2021/22, er mwyn annog defnydd o'r coetir a chodi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd, crëwyd tystysgrifau coeden ar gyfer babanod a anwyd i deuluoedd yn Sir Benfro.



Cyfraniad at ein nodau llesiant cenedlaethol



Cymru Gydnerth

- Lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd ar natur.



Cymru Lewyrchus

- Lleihau allyriadau carbon.



Cymru Iachach

- Gwella llesiant corfforol a meddyliol drwy natur.
- Annog ffyrdd gweithgar o fyw drwy alluogi pobl i gael mynediad at fannau gwyrdd.



Cymru o Gvmunedau Cvdlynus

- Cysylltu cymunedau.

Cyfraniad at ein hamcanion llesiant

Cynllunio a darparu gwasanaethau i gynyddu ein cyfraniad at garbon isel.

Trawsnewid ein cymunedau drwy gydweithio â phobl, cymunedau a phartneriaid.

Hybu'r amgylchedd naturiol a'r gallu i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

Rhoi Sylw i Gefnogi ein Cymunedau

Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol

Sefydlodd y Bwrdd Iechyd Dîm Allgymorth Datblygu Cymunedol i ymgysylltu â'n cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac mae ei waith wedi chwarae rhan allweddol o ran cefnogi'r rheiny a oedd yn amharod i ymgysylltu â'r rhaglen frechu Covid-19. Ffurfiwyd Grŵp Brechu Teg gan y Bwrdd Iechyd i wella gwybodaeth a mynediad at frechiadau Covid i'r grwpiau hynny sy'n ei chael hi'n anodd cael gwasanaethau gofal iechyd yn aml neu sydd eisoes yn dioddef anghydraddoldebau iechyd. Mae'r tîm hefyd wedi hwyluso mynediad at wybodaeth yn iaith gyntaf yr unigolyn os nad y Gymraeg neu'r Saesneg yw'r iaith honno. Mae hyn wedi arwain at gyfieithu negeseuon a gwybodaeth am iechyd y cyhoedd i 19 o ieithoedd gwahanol ac yn dangos yr amrywiaeth ddiwylliannol o fewn Hywel Dda.


Mae'r Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol yn ceisio cyfrannu at wella iechyd y boblogaeth drwy atal ac ymyrraeth gynnar, drwy helpu cymunedau i gael gwell dealltwriaeth o'u hawliau a mynediad at ofal iechyd, helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i gael gofal a chymorth, yn ogystal â chwarae rhan bwysig o ran nodi cyfryngwyr cymunedol y gellir ymddiried ynddynt a chreu mecanweithiau i gynnal ymgysylltu yn y dyfodol. Mae peth o'r adborth a gafwyd gan y Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol i'w weld isod.

"Diolch yn fawr i'r tîm allgymorth am yr holl gymorth gwybodaeth a roddwyd i'n haelodau o gymunedau amrywiol. Mae'r tîm hwn yn gweithio'n galed, ac rydym mor falch ein bod yn gallu gweithio mewn partneriaeth er budd aelodau ein cymuned." – Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli



"Rydw i wrth fy modd eich bod yn ceisio estyn allan. Mae eich negeseuon bob amser o gymorth. Rwy'n gobeithio y bydd rhagor o bobl yn gwneud beth rydych chi'n ei wneud." - Ffoadur o Syria

Allgymorth Datblygu Cymunedol Ebrill 2021 – Mawrth 2022



Realiti Rhithwir mewn Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes yng Ngheredigion

Yn sgil y pandemig, mae cleifion yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy ynysig ac yn fwy agored i niwed. Er bod defnyddio offer realiti rhithwir mewn lleoliadau clinigol wedi bod yn hynod werthfawr, mae llai o ymchwil wedi'i gwneud mewn cymunedau neu gartrefi. Datblygwyd prosiect i archwilio'r gwerth yn y lleoliadau hyn, yn enwedig i'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell, o bosibl gan leihau'r risg y byddant yn cael eu derbyn i safleoedd aciwt oherwydd ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd; lleihau'r angen am analgesia a chyffuriau lleihau gorbryder o ganlyniad i fwy o deimladau o lesiant; a gwella llesiant ac ansawdd bywyd cleifion a'u gofalwyr. Mae'r prosiect yn ceisio gwella ansawdd bywyd a llesiant i bobl sy'n byw gyda salwch sy'n bygwth bywyd ac sy'n wynebu heriau corfforol, seicolegol, cymdeithasol ac ysbrydol, a'u teuluoedd.

Gyda chymorth y Nyrs Glinigol Arbenigol Gofal Lliniarol, roedd un defnyddiwr gwasanaeth, sy'n weddw ac yn ei hwythdegau hwyr, ac sy'n byw ar fferm, yn gallu defnyddio'r realiti rhithwir. Cyn cael y profiad ymlacio drwy anadlu, dywedodd y claf fod lefel ei gorbryder yn 5/6 allan o 10. Ar ôl y sesiwn, dywedodd y claf fod lefel ei gorbryder wedi lleihau i 2.

"Roeddwn i'n gallu mynd ar daith rithwir i Efrog Newydd, lle'r oeddwn yn ymarfer y technegau anadlu roedd y nyrs wedi'u dangos i mi. Roedd yn wych ac yn hyfryd ac roedd wedi fy helpu i dynnu fy meddwl oddi ar bethau."



Cyfraniad at ein hamcanion llesiant

Gwella iechyd y boblogaeth drwy atal ac ymyrraeth gynnar, gan gefnogi pobl i fyw bywydau hapus ac iach.

Cynllunio a darparu gwasanaethau i alluogi pobl i fod yn rhan o atebion cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd, gan annog cyfranogiad cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trawsnewid ein cymunedau drwy gydweithio â phobl, cymunedau a phartneriaid.

Cyfraniad at ein nodau llesiant cenedlaethol



Cymru Iachach

- Ffyrdd arloesol o wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl.
- Gofal tosturiol i gefnogi iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl.



Cymru sy'n fwy cyfartal

- Sicrhau bod gofal iechyd ar gael i bawb.



Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Cydnabod y profiadau a gafwyd gan bobl, chwalu rhwystrau a gwella eu llesiant.

Rhoi Sylw i'r Economi Sylfaenol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) a phartneriaid y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i ddatblygu dull caffael blaengar. Y nod yw datblygu cadwyn gyflenwi o fentrau bach a chanolig lleol, busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a mathau eraill o berchenogaeth leol. Mae'r mathau hyn o fusnesau yn fwy tebygol o gefnogi cyflogaeth leol a bod yn fwy ffyniannus er mwyn cadw cyfoeth ac arian dros ben yn lleol.

Mae gwasanaeth comisiynu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin ac ar y cyd â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar lefel uchel i archwilio a nodi'r cyfle i gael a chaffael mwy o gynnyrch bwyd o'r tu mewn i ôl troed y ddau sefydliad ac i gynnwys swyddogion galluogi allweddol i sicrhau cyflenwad mwy uniongyrchol o gynnyrch lleol i fwydlenni ysgolion. Bydd yr astudiaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd eisoes fel rhan o Brosiect Caffael Bwyd y Sector Cyhoeddus a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a'r astudiaeth ddichonoldeb ar Fodelau Logisteg Cynaliadwy ar gyfer Dosbarthu Bwyd yn ne-orllewin Cymru (a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion). Mae'r gwaith sydd i'w wneud yn cynnwys dwy elfen allweddol, sef astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygu model coginio-rhewi ar gyfer cynhyrchu bwyd i'r Bwrdd Iechyd; a chwmpasu'r prif feysydd a'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn galluogi cyflenwad mwy uniongyrchol o gynnyrch lleol ar fwydlenni ysgolion.

Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu, yn benodol i Hywel Dda, themâu, canlyniadau a mesurau gwerth cymdeithasol, mewn partneriaeth â'r Porth Gwerth Cymdeithasol. Rydym wedi dechrau cynnwys y rhain mewn tendrau uwchlaw'r trothwy. Rydym hefyd wedi ceisio dylanwadu ar gontractau Cymru gyfan i roi ystyriaeth i gyfleoedd lleol o ran yr economi sylfaenol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried dod o hyd i gyflenwyr lleol brechdanau wedi'u paratoi a datblygu busnes gyda menter gymdeithasol gweithgynhyrchu dillad yng Nghymru.

Cyfraniad at ein hamcanion llesiant

Cynllunio a darparu gwasanaethau i gynyddu ein cyfraniad at garbon isel.

Trawsnewid ein cymunedau drwy gydweithio â phobl, cymunedau a phartneriaid.

Cyfraniad at ein nodau llesiant cenedlaethol



Cymru Lewyrchus

- Defnyddio sylfaen gyflenwyr leol lle bo'n bosibl.



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

- Rheoli cadwyn gyflenwi gynaliadwy.



Cymru Gydnerth

- Cynnwys lleihau carbon.



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Annog sylfaen gyflenwyr leol a chydymffurfio â'r gofynion o ran y Gymraeg.

Rhoi Sylw i Ddiwylliant

Penododd y Bwrdd Iechyd ddau **Gydgysylltydd y Celfyddydau mewn Iechyd i helpu i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r celfyddydau mewn gofal iechyd ar draws y tair sir**. Mae'r celfyddydau mewn iechyd yn cynnwys unrhyw brosiect celf, ymyrraeth neu gomisiwn lle mai'r bwriad yw gwella iechyd a llesiant drwy ymgysylltu â'r celfyddydau, ac mae'n seiliedig ar y corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos yr effaith y gall y celfyddydau ei chael ar iechyd a llesiant unigolyn neu gymuned.

Mae tîm y Celfyddydau mewn Iechyd eisoes yn chwarae rhan hollbwysig o ran datgloi potensial enfawr y celfyddydau i wella iechyd a llesiant ein cleifion, cymunedau a staff, ac mae'n darparu cymorth, arbenigedd, arweiniad a chynghor i'n staff o ran archwilio sut y gall y celfyddydau helpu i gyflawni eu blaenoriaethau iechyd a llesiant. Er enghraifft, sefydlwyd Grŵp Llywio y Celfyddydau mewn Iechyd, sy'n cynnwys penaethiaid gwasanaeth o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd, i helpu i arwain a llywio mentrau y celfyddydau mewn iechyd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant ein cleifion a defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'n gweithlu, ac rydym ar fin dechrau rhaglen ymgynghori i greu cyfres o egwyddorion a blaenoriaethau y Celfyddydau mewn Iechyd ar y cyd ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mae rhaglen y celfyddydau mewn iechyd meddwl hefyd yn cael ei datblygu a'i darparu, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a'r Glasoed, ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw gydag anhwylderau bwyta a hwyliau isel, gorbryder ac iselder i dreialu gweithgareddau creadigol newydd sy'n manteisio ar bŵer trawsnewidiol y celfyddydau i leihau gofid seicolegol ymhlith plant a phobl ifanc. Rydym wedi comisiynu tri phartner yn y celfyddydau (People Speak Up, Celfyddydau Span a Theatr Byd Bychan), un o bob sir, i arwain y gwaith o ddarparu rhaglen o ymyriadau celfyddydol.



*Ciplun o'r Gweithdy Trwsio Creadigol ar y Cyd
gan Hywel Dda a gynhaliwyd drwy Teams*

Ym mis Gorffennaf 2021, lansiodd **Tîm yr Iaith Gymraeg** gwrs magu hyder drwy raglen Cymraeg Gwaith y Llywodraeth gyda Phrifysgol Aberystwyth. Mae'r cwrs magu hyder yn ceisio helpu staff sy'n gallu siarad Cymru i ennill yr hyder i fynd amdani a defnyddio'r iaith gyda chleifion, cydweithwyr a'r cyhoedd. Mae'r cwrs hwn wedi'i groesawu gan y Bwrdd Iechyd i helpu'r rheiny sy'n gallu siarad Cymraeg ond efallai nad ydynt wedi cael cyfle i'w defnyddio ers iddynt fod yn yr ysgol ac sydd felly wedi colli eu hyder. Mae'r cwrs yn para am flwyddyn gyda chymorth gan diwtor am chwe mis wedi hynny. Mae 13 aelod o staff wedi bod yn mynychu'r cwrs ac maent eisoes wedi bod yn defnyddio eu Cymraeg yn y gweithle ac yn gweld yr effaith y mae hynny'n ei chael ar brofiad y claf o gyfathrebu yn ei ddewis iaith. Mae'r defnydd o'r Gymraeg felly wedi bod o fudd mawr yn yr achos hwn, gan fod y claf yn fwy cyfforddus wrth drafod a rhannu profiadau.

Rhaglen Newid Diwylliannol

Rydym yn dechrau taith newid diwylliant ar draws Hywel Dda. Rydym am sicrhau bod gan bob diwrnod yn Hywel Dda y potensial i fod yn Ddiwrnod Da yn y Gwaith. Bydd ein tîm newydd o Reolwyr Perthynas Datblygu Sefydliad yn gweithio ochr yn ochr â thimau ehangach y gweithlu, gyda'n gwasanaethau a grwpiau proffesiynol, i greu Cynlluniau Diwylliant Pobl i yrru'r newid diwylliant o lawr gwlad a gwneud Hywel Dda yn lle gwyh i weithio. Mae ein dull yn wahanol i fentrau eraill, gan y byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus gyda'n harweinwyr, ein cynrychiolwyr ar ochr y staff a'n staff ar lawr gwlad.



**Dod â'r darnau sy'n
gwneud diwrnod da yn y
gwaith at ei gilydd**

Mae ein staff wedi dweud beth sy'n bwysig iddynt, ac mae'r diwylliant rydym yn dyheu am ei gael yn Hywel Dda yn seiliedig ar adborth y staff:

Ein Diwylliant

“Rydym am greu diwylliant tosturiol, cydweithredol a gwerthfawrogl yn Hywel Dda, lle gall pawb fod cystal â phosibl yn y gwaith. Lle gwyh i weithio, sy'n gynhwysol o ran ein dull gweithredu, fel bod gan bawb, ni waeth beth fo'u rôl, eu band neu'u cefndir, y potensial i gael diwrnod da yn y gwaith.”



Bydd sicrhau ein bod yn galluogi mwy o Ddiwrnodau Da yn y Gwaith yn hanfodol i sicrhau y bydd profiad ein staff yn gyson â'n strategaeth gyffredinol yn Cymru lachach. Mae galluogi ein staff i fod cystal â phosibl yn y gwaith, rhoi llais iddynt mewn man lle maent yn teimlo'n ddiogel i siarad am y pethau sy'n eu poeni, eu cydnabod am y gwaith gwyh y maent yn ei wneud, cydnabod sut y byddwn yn cyflawni mwy drwy gydweithio a gwaith tîm, dangos arweinyddiaeth weledol a thosturiol, eu grymuso i dderbyn perchenogaeth o'u datblygiad, cefnogi eu hymreolaeth i wneud y peth iawn ar gyfer ein cleifion ac annog perthnasoedd iach i gyd yn cefnogi ein hagenda strategol a'n hamcanion llesiant ar gyfer Hywel Dda.

Cyfraniad at ein hamcanion llesiant

Trawsnewid ein cymunedau drwy gydweithio â phobl, cymunedau a phartneriaid.

Cynllunio a darparu gwasanaethau i alluogi pobl i fod yn rhan o atebion cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd, gan annog cyfranogiad cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfraniad at ein nodau llesiant cenedlaethol



Cymru lachach

- Ffyrdd arloesol o wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl.



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Codi proffil diwylliant fel un o elfennau allweddol llesiant.
- Integreiddio diwylliant gyda meysydd eraill fel iechyd a chydaddoldeb.

Rhoi Sylw i Weithredoedd Corfforaethol

Rydym yn ymwybodol ein bod yn sefydliad angori mawr ar gyfer gorllewin Cymru a bod gennym y gallu i beri newid cadarnhaol i'r economi a'n cymunedau, gan gynnwys eu penderfyniadau iechyd ehangach. Mae gennym nifer o amcanion cynllunio sy'n cyd-fynd â'r gwaith hwn mewn meysydd allweddol, fel y gweithlu, caffael a datgarboneiddio.

Er mwyn cefnogi'r gwaith yn y meysydd hynny, rydym wedi datblygu map sy'n galluogi'r defnyddiwr i osod gwahanol setiau data ar ben mynegeion amddifadedd amrywiol sydd ar gael i'r cyhoedd (e.e. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) a lleoliadau gwasanaethau allweddol (e.e. meddygon teulu, fferyllfeydd). Mae gennym hefyd y gallu i ychwanegu setiau data, fel ein hystad, gwariant ar gaffael a gwybodaeth am recriwtio.


Roeddem am fod yn gallu adnabod yn hawdd y wardiau mwyaf amddifad fesul clwstwr a'u prif anghenion. Gellid defnyddio'r dadansoddiad hwn yn ffrydiau gwaith y gweithlu, caffael a datgarboneiddio. Dangosir isod y farn gychwynnol ynghylch ble y gellir defnyddio'r map:

Caffael	Y Gweithlu / Recriwtio	Daearyddiaeth ein gwasanaethau
- Sicrhau bod y map ar gael i gyflenwyr, er mwyn dangos a rhannu gwybodaeth am yr anghenion lleol mewn ardal benodol gyda chynigwyr, fel rhan o ddogfennau tendro - Ychwanegu'r gwariant ar gaffael i weld sut y mae gwariant yn cyd-fynd â'r mynegeion amddifadedd	- Ychwanegu data ar y gweithlu i weld ein data ar sail ddaearyddol - Defnyddio'r data i lywio gweithgarwch recriwtio	Defnyddio'r data yn y map i ddangos, at ddibenion cynllunio, yr amserau ar gyfartaledd i bobl gael gwasanaethau amrywiol a pha mor agos y mae'r gwasanaethau


Bellach bydd gwaith yn dechrau i ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r offeryn ond gallai'r canlyniad posibl i'n cymunedau drwy ddefnyddio'r offeryn hwn o fewn y ffrydiau gwaith sefydledig fod yn sylweddol. Gwelir rhai awgrymiadau isod:

- **Recriwtio:** Mae tîm y Gweithlu eisoes yn gweithio gyda chymunedau i ddeall y rhwystrau a wynebir gan unigolion o ran cyflogaeth. Mae rhaglen yn cael ei datblygu sy'n cynorthwyo'r rheiny o'n cymunedau mwyaf difreintiedig neu gymunedau a ymyleiddiwyd i gael cyflogaeth yn y Bwrdd Iechyd. Gellir defnyddio'r offeryn mapio i helpu i nodi cymunedau allweddol.
- **Caffael:** Mae'r tîm Caffael eisoes yn ystyried y ffordd orau o gynnwys gwerth cymdeithasol yn ein prosesau caffael. Y nod yw defnyddio sgiliau, galluoedd, cadwyn gyflenwi a photensial ein cyflenwyr o ran recriwtio i gael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau. Gellir defnyddio'r offeryn mapio i ddangos i'n cyflenwyr ble mae'r ardaloedd â'r anghenion mwyaf.
- **Yr Amgylchedd:** Mae gennym raglen ystadau sylweddol yn y Bwrdd Iechyd. Gallwn ddefnyddio'r offeryn mapio i ystyried lleoliad ein hystad, ynghyd â'r wybodaeth am amddifadedd, i lywio strategaethau lleoliad ac ystad yn y dyfodol.

Isod gwelir cipluniau o'r map:



Data ar Ofalwyr wedi'i Fapio



Yr holl amddifadedd gydag enwau lleoedd

Ochr yn ochr â gweithredu a defnyddio'r offeryn mapio amddifadedd, byddwn yn ystyried sut rydym yn mesur ac yn monitro ei effaith ar lefel leol. Ar lefel y Bwrdd, rydym wedi datblygu 19 dangosydd canlyniad allweddol, sy'n cyd-fynd â'n chwe amcan strategol. Mae ansawdd yn ganolog i'r rhain. Maent yn cynnwys cyfuniad o fetrigau ansoddol a meintiol sy'n cynnwys adborth gan staff a chleifion, a mesurau llesiant lleol, systemau a chenedlaethol. Gan ddefnyddio ein hamcanion strategol, mae gennym thema, canlyniad a mesur. Gwelir enghreifftiau o'r rhain isod. Caiff cynnydd mewn perthynas â'r mesurau hyn ei fonitro drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Amcan Strategol	Thema	Canlyniad	Mesur
Cydweithio i fod cystal â phosibl	Cleifion	Rydym yn gwrandao ar leisiau ein cleifion i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt	% y cynlluniau a gwblhawyd yng nghyfarfodydd adolygu gwasanaeth Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth
Rhoi pobl wrth galon popeth a wnawn	Y boblogaeth	Rydym yn ymgysylltu'n weithredol â'n poblogaeth ac yn gofyn am eu hadborth ynghylch eu profiadau ar hyn o bryd a'u hanghenion yn y dyfodol	Y ganran sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
Defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy	Cymdeithasol	Rydym yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar y gymdeithas	% gwariant trydydd partion gyda Hywel Dda a chyflenwyr o Gymru
Ymdrechu i ddarparu a datblygu gwasanaethau rhagorol	Darganfod	Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn ymchwil a datblygu ac arloesi	Astudiaethau ymchwil a datblygu newydd a ddechreuir mewn blwyddyn (sy'n cael eu cynnal a'u noddi)
Yr iechyd a'r llesiant gorau i'n cymunedau	Tegwch	Mae llais gan ein cymunedau ac maent yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau	Disgwyliad oes iach adeg geni, gan gynnwys y bwch rhwng y rhai lleiaf difreintiedig a'r rhai mwyaf difreintiedig
Gofal diogel, cynaliadwy, hygyrch a charedig	Cynaliadwy	Mae gennym weithlu sefydlog a chynaliadwy	Cyfradd drosiant yn y flwyddyn gyntaf o wasanaeth

Cyfraniad at ein hamcanion llesiant

- Cynllunio a darparu gwasanaethau i gynyddu ein cyfraniad at garbon isel.
- Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwaith sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu potensial.
- Gwella iechyd y boblogaeth drwy atal ac ymyrraeth gynnar, gan gefnogi pobl i fyw bywydau hapus ac iach.

Cyfraniad at ein nodau llesiant cenedlaethol



Cymru Lewyrchus carbon.



- **Cymru Iachach** iecnya meddwi ac iechyd corfforol pobl.



Cymru sy'n fwy

- Lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd ar natur.

- Galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir.



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang cyflenwi cynaliadwy

Gweithio mewn partneriaeth

Mae gofyniad statudol i'r Bwrdd Iechyd gyfrannu at waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i drawsnewid darpariaeth gofal iechyd a chymdeithasol. Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn wedi rhoi sylw i nifer o brosiectau sydd wedi'u darparu mewn cydweithrediad a chyda'n partneriaid ac sy'n hybu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng nghynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Ardal y BPRh.

Drwy ein gwaith gyda'r BPRh, rydym wedi rhoi rhaglen drawsnewid uchelgeisiol ar waith – Gorllewin Cymru Iachach. Wrth galon y rhaglen y mae'r penderfyniad i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi, paratoi cymunedau i ddarparu cymorth i'w gilydd er mwyn i hyn ddigwydd, a lleihau'r pwysau ar wasanaethau aciwt drwy ddarparu gofal tymor byr cydgysylltiedig yn eu cartrefi i'r rheiny sydd ei angen, yn hytrach na bod yn rhaid iddynt fynd i'r ysbyty i'w gael.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Eleni, bydd ein dull gweithredu o ran rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith yn parhau i aeddfedu wrth i ni geisio adfer o effeithiau'r pandemig. Mae Covid wedi datgelu a dwysáu anghydraddoldebau parhaus a heriau o ran iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â thlodi, ffactorau amgylcheddol, tai o ansawdd gwael ac ynysigrwydd cymdeithasol. Byddwn yn ceisio ymateb i'r rhain yn unigol ac ar y cyd â'n partneriaid drwy ein gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth i ni gydweithio ar adnewyddu cynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n poblogaeth o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl, yn ogystal ag adferiad cymdeithasol ac economaidd ehangach ein hardaloedd. Fel un o'r prif gyflogwyr yng ngorllewin Cymru, mae gennym ran allweddol i'w chwarae o ran helpu i gyflawni adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal i drigolion Hywel Dda.

Fel rhan o'n strategaeth dymor hwy ar gyfer iechyd a gofal – sydd wedi'i chrynhai yn "Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach" – byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i sicrhau bod y buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth iechyd wedi'i moderneiddio yn sicrhau'r gwerth cymdeithasol a chyhoeddus mwyaf posibl, yn ogystal â'r buddion mwyaf posibl o ran iechyd a llesiant.